# ysgol ardudwy

# POLISI GWRTHFWLIO

Dyddiad Mabwysiadu : **24/10/2018** Dyddiad Adolygu : **24/10/2021**

| | |
|---|---|
| **Llofnod Cadeirydd y Corff Llywodraethol:** *Annwen Hughes* |
| **Dyddiad: 24/10/2018** |
| **Llofnod y Pennaeth:** *H A Williams* |
| **Dyddiad: 24/10/2018** |

**Ysgol ardudwy**

**POLISI GWRTH FWLIO**

**Cefndir:** Diffinir bwlio fel ymddygiad cyson sy'n gwneud i berson arall deimlo'n anghyffyrddus neu dan fygythiad. Gall yr ymddygiad fod yn fwriadol neu fel arall.
Mae sawl math o fwlio ond gellir nodi tri phrif gategori:

- Corfforol e.e. taro, cicio, dwyn neu cuddio eiddo.
- Geiriol e.e. galw enwau, dweud pethau cas.
- Cyfrifiadurol e.e. y defnydd o`r wê, lleoliadau cymdeithasol, negeseuon testun.
- Emosiynol e.e. cychwyn sibrydion di-sail, peidio â siarad a rhywun a.y.y.b.

Mae disgyblion sy'n cael eu bwlio yn newid – gallant fynd yn swil neu nerfus, neu geisio perswadio eraill eu bod yn sâl. Fe all safon eu gwaith newid neu fe allant driwantu o'r ysgol.

**Nod:** Nod y polisi hwn yw sicrhau awyrgylch lle gall pob disgybl ddatblygu ac aeddfedu mewn gwahanol ffyrdd heb bryder nac ofn.
Gellir cyfeirio at y ddogfen 'Parchu Eraill: Trosolwg gwrth-fwlio(Rhif:050/2011)

**Amcanion:**

- sicrhau fod pob disgybl yn teimlo'n hapus a diogel yn yr ysgol.
- creu awyrgylch lle mae disgyblion yn barod i siarad â phobl am unrhyw broblemau sy'n codi yn yr ysgol, gan sicrhau bydd yr ysgol yn gweithredu'n sydyn, yn synhwyrol ac yn sensitif.
- datgan yn glir i ddisgyblion a rhieni fod yr ysgol yn ystyried bwlio yn annerbyniol.
- egluro ymateb yr ysgol yn glir.

**Dulliau gweithredu**

**Adran A: Gwaith rhagweithiol.**

1. **Cwricwlwm yr ysgol:** Bydd cwricwlwm yr ysgol yn atgyfnerthu'r polisi drwy:
    - ymdrin â'r broblem mewn gwaith grŵp mewn amrywiaeth o bynciau.
    - ddefnyddio dulliau dysgu sy'n annog cydweithio rhwng unigolion er mwyn i ddisgyblion ehangu eu cylch o ffrindiau.
    - gynnal gweithgareddau achlysurol, ond rheolaidd, i gynnal yr ymwybyddiaeth.
    - gynnwys unedau penodol o fewn rhaglenni ABACH.

    Gweithredir hefyd yr isod:

    - Arweiniad amlwg gan yr UDRH wrth arwain gwasanaethau.
    - Cyflwynir disgybl newydd i grŵp o ddisgyblion sydd yn 'gyfrifol' amdano yn ystod y dyddiau cyntaf. Bydd hyn yn hwyluso`r broses o integreiddio.

**2. Cyfarwyddiadau i rieni.**

- Gofynir i rieni roi gwybod i`r ysgol os ydynt yn teimlo neu yn gwybod fod eu plentyn yn cael ei fwlio.
- Gofynir i rieni sicrhau eu plentyn y bydd yr ysgol yn ymateb mewn ffordd gadarn ond sensitif.
- Os bydd yr ysgol yn darganfod fod plentyn yn cael ei fwlio yn yr ysgol, neu ei fod yn bwlio eraill, bydd yr ysgol yn cysylltu â`r rhiant er mwyn trafod y ffordd orau i ddatrys y broblem.

**3. Cyfarwyddiadau i ddisgyblion.** Rhoddir tair prif neges i ddisgyblion:

- Gofynnir i ddisgyblion, mewn achos o fwlio, roi gwybod i un aelod o staff yn syth er mwyn i'r ysgol geisio datrys y broblem.
- Pwysleisir y bydd bwlio`n parhau os na fydd disgyblion yn rhoi gwybodaeth.
- Mae gan bob aelod o staff a phob disgybl ddyletswydd i sicrhau nad yw bwlio'n digwydd yn yr ysgol.

**4. Cyfarwyddiadau i athrawon**

- Dylai pob aelod o staff, dysgu ac ategol, gadw llygad am achosion o fwlio yn barhaol. Disgwylir i staff dysgu ymateb i`r sefyllfa. Disgwylir i`r staff ategol dynnu sylw`r staff dysgu at y sefyllfa.
- Dylai aelod o staff dysgu, os ydynt yn teimlo fod bwlio`n digwydd, siarad â'r disgyblion er mwyn canfod y gwirionedd. Gellir gofyn i ddisgyblion ysgrifennu yr hyn sy`n digwydd a throsglwyddo`r nodyn naill i'r Tiwtor Dosbarth neu'r Pennaeth Blwyddyn.
- Mae`r prif gyfrifoldeb am ddatrys problemau o fwlio yn disgyn ar ysgwyddau tiwtoriaid, Penaethiaid Blwyddyn a`r UDRH.
- Mae'n rhaid fod yn arbennig o effro i'r posibilrwydd o fwlio yn ystod yr egwyl a chinio a rhwng gwersi - ar y cae chwarae ac wrth y toiledau. Bydd cyfnodau dyletswyddau effeithiol yn sicrhau na all problemau godi.
- Mae prydlondeb i wersi yn hollbwysig yng nghyswllt sicrhau nad oes problemau yn digwydd o fewn dosbarth.
- Er y gall cŵyn gan blentyn swnio'n bitw dylid ei drin fel achos difrifol - fe fydd yn ymddangos yn ddifrifol i'r disgybl.

5. **Hyfforddiant**

- Caiff yr arolygwyr cinio hyfforddiant ac arweiniad gan yr UDRh.
- Mae lles bugeiliol disgyblion, gan gynnwys materion gwrth fwlio, ar agenda cyfarfodydd y tiwtoriaid a`r Penaethiaid Blwyddyn.

**Adran B: Gwaith ymatebol; Bydd yr ysgol yn ymateb fel a ganlyn i achos o fwlio.**

- Bydd aelod o staff yn egluro'n glir wrth y bwli fod ei ymddygiad yn gwbl annerbyniol ac wedi achosi pryder i eraill. Eglurir wrth y disgybl a gafodd ei fwlio fod dial yn amhriodol. Gwneir pob ymdrech i ddatrys y sefyllfa drwy gwnsela'r ddau barti. Os oes angen, bydd yr ysgol yn cysylltu â'r rhieni i egluro'r sefyllfa ac i egluro ymateb yr ysgol. Gwneir cofnod clir o'r sefyllfa.
- Bydd yr ysgol yn cysylltu â rhieni os na lwyddir i ddatrys y sefyllfa ar unwaith.
- Os bydd y bwlio'n parhau bydd yr ysgol yn cymryd camau pellach yn erbyn y bwli gan alw, os yn briodol, ar arbenigedd asiantaethau allanol (e.e Gwasanaeth Lles Addysg). Bydd yr ysgol yn parhau â'r cwnsela i'r ddwy ochr. Bydd y camau yn unol â pholisi ymddygiad yr ysgol.
- Bydd y UDRh yn ymateb i fwlio parhaus sydd ddim yn gwella yn sgîl ymdrechion yr ysgol trwy atal.

**Monitro ac Adolygu:**

**Ysgol ardudwy**

1. Adolygir y polisi hwn bob tair blynedd.

2. Bydd yr ysgol yn rhoi cyfle i’r disgyblion fynegi barn am y polisi gwrthfwlio a`i effeithiolrwydd. Bydd yr ysgol yn diwygio gweithdrefnau rhaglen yn unol â gofynion y disgyblion os bydd angen.

3. Bydd dulliau gweithredu'r polisi yn cael eu monitro gan yr UDRH a`r Penaethiaid Blwyddyn. Ymgynghorir â'r bobl hyn pan adolygir y polisi:
    - Disgyblion.
    - Cyngor yr ysgol.
    - Rhieni/Gwarchodwyr/Gofalwyr.
    - Athrawon.
    - Corff Llywodraethol.